

CYNGOR WRTH ADOLGYU

1. Dylai adolygu fod yn broses barhaus

Nid rhywbeth i'w wneud yn syth o flaen arholiad yw adolygu – ond er mwyn bod yn effeithiol mae'n rhaid iddo fod yn gyson a pharhaus. Gellwch amrywio'ch technegau adolygu, er enghraifft gellir troi gwaith yn gyfres o lif ddiagramau neu ddiagramau pry cop.

2. Amserlen Adolygu

Cyn yr arholiadau mae angen bod yn drefnus wrth adolygu, ac i'r perwyl hwn dylech lunio **amserlen adolygu**. Gwnewch restr o'r holl destunau sydd angen eu hadolygu ym mhob pwnc ac wedyn penderfynu ym mha drefn i'w hadolygu. Er mwyn cadw diddordeb fel arfer mae'n well adolygu amrywiaeth o destunau ar yr un diwrnod yn hytrach na threulio diwrnod cyfan ar yr un testun.

3. Gwybodaeth fanwl am bob arholiad

Er mwyn adolygu'n effeithiol ar gyfer arholiad yna dylech sicrhau eich bod yn gwybod popeth posib amdano. Gellir cael copi o'r manylebau pwnc. Dylid ystyried:

- Pa destunau sydd o fewn y pwnc?
- Sut gwestiynau a ofynnir fel arfer?
- Ydy'r cwestiynau i gyd yn orfodol?
- Faint o amser a ddylid ei roi i bob cwestiwn?

4. Dysgwch wersi o'r ffug arholiadau a phrofion blaenorol

Wrth adolygu edrychwch ar yr atebion a roddwyd gennych mewn arholiadau a phrofion blaenorol:

- Lle y collwyd y marciau gennych?
- Oeddech chi'n ateb yr union gwestiwn a osodwyd?
- A wnaethoch chi ateb y cwestiwn yn llawn ac yn fanwl?
- A wnaethoch chi anghofio ffeithiau pwysig?
- Oeddech chi wedi adolygu pob agwedd yn ddigon manwl?

Dyma un o'r prif resymau am osod ffug-arholiadau – sef eich bod yn dysgu sut i sefyll arholiadau'n llwyddiannus. Pe baech yn sefyll yr un arholiad eto a fydddech yn ateb y cwestiynau'n well?

STRATEGAETHAU ADOLYGU

1. Gellwch grynhoi testunau gwaith trwy ddiagramau pry cop – efallai gan roi un dudalen i bob testun.
2. Ceisiwch greu cysylltiadau rhwng syniadau.
3. Ceisiwch ganolbwyntio'n arbennig ar y testunau sydd fwyaf anodd yn eich tyb chi.
4. Ar ôl cyfnod o adolygu yna treuliwch amser yn ceisio egluro i rywun arall beth a ddysgoch.
5. Profwch chi eich hun gan ysgrifennu llif ddiagramau neu bry cop o'ch cof.
6. Sicrhewch fod gennych cyn-bapurau arholiad er mwyn ymarfer ateb cwestiynau penodol ac ymarfer techneg arholiad.
7. Anelwch bob wythnos i drafod sut mae'r adolygu'n mynd gyda ffrind – mae cael partner dysgu yn aml o gymorth.

Cofiwch hefyd – mae llawer o ddisgyblion yn dweud nad ydynt wedi adolygu er eu bod mewn gwirionedd wedi gwneud hynny. Yn aml mae hyn er mwyn rhoi esgus parod iddynt pe baent yn methu – nid yw'n ymddygiad i'w ddyngwared.

Un cyfle yn unig a gewch ar wneud eich TGAU – gwnewch eich gorau glas ac yna mwynhewch yr haf hir!